



Cymdeithas  
**Cyfieithwyr**  
Cymru

## Adroddiad y Prif Arholwr

### Arholiadau Aelodaeth Sylfaenol Ebrill 2016

*Mae Aelodaeth Sylfaenol yn cyfateb i waith a wneir dan oruchwyliaeth ar lefel broffesiynol sylfaenol. Disgwylir i'r ymgeisydd gynhyrchu gwaith cywir, addas a graenus o fewn terfynau amser.*

### Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 17

Llwyddo: 4

Er mai rhyw chwarter yn unig o'r ymgeiswyr a fu'n llwyddiannus yn y rownd hon, ni chafwyd yr un cynnig oedd yn wirioneddol wan, ac roedd rhai pethau addawol ym mhob un o'r papurau. Wedi dweud hynny, siom unwaith yn rhagor oedd gweld ambell ymgeisydd digon addawol yn methu â chyrraedd y safon oherwydd gwallau ystyr neu gywirdeb y dylasai sylwi arnynt wrth ddarllen y gwaith cyn ei gyflwyno.

Un o'r gwallau amlycaf oedd gorddibyniaeth ar batrwm y gwreiddiol, ac roedd dilyn trefn y Saesneg yn slafaidd yn gallu cynhyrchu testun a oedd yn drwsgl, neu hyd yn oed yn gamarweiniol, e.e.:

*new healthy school meal standards*  
***safonau prydau ysgol iach newydd***

*delayed childhood obesity strategy*  
***strategaeth gordewdra ymysg plant ohiriedig***

Mae enghreifftiau fel y rhain, a gafwyd gan sawl ymgeisydd, yn dangos pa mor hanfodol yw darllen y cyfieithiad yn annibynnol ar y gwreiddiol ar ôl gwirio'r ystyr, er mwyn sicrhau llif naturiol i'r gwaith.

Cafwyd hefyd nifer o enghreifftiau o wallau ystyr, e.e.

*failed to sign up to new healthy school meal standards*  
***wedi methu â chofrestru ar gyfer safonau...***

*fried and pastry-based food*  
***bwyd wedi'i ffrio a theisennau***

*A community wellbeing spokesperson*

**siaradwr lles cymunedol**

*[An ancient stone tablet...] is being hailed*  
**yn cael ei chyfarch**

*excited experts*  
**arbenigwyr, sydd wrth eu bodd,**

Ambell waith, roedd y cyfieithiad a gynigiwyd wedi pellhau'n sylweddol o'r hyn oedd yn y gwreiddiol, e.e.:

*Roman and Greek civilisations from which our own cultures developed*  
**wareiddiad Rhufeinig a Groegaidd, ac o hynny o beth mae ein diwylliannau ein hunain wedi datblygu ohono**

*This mysterious but highly cultured race, which colonised large parts...*  
**Roedd y dras ddirgel ond ddiwylliannol iawn, yn gwladychu rhannau mawr...  
Adeiladodd y bobl ddirgel ond ddiwylliedig iawn yma, oedd yn byw mewn rhannau...**

Mae enghreifftiau fel y rhain nid yn unig yn cymylu'r ystyr, ond hefyd yn dangos nad yw'r ymgeiswyr dan sylw yn defnyddio patrymau naturiol y Gymraeg yn reddfol.

Gwelwyd nifer o enghreifftiau hefyd o batrymau cystrawennol gwallus, megis ffurfiau berfol anaddas, methiant wrth lunio cymalau ac ati. Dyma rai enghreifftiau:

**gan yr oeddent yn ysgrifennu yn bennaf**  
**nifer ohonynt sy'n newydd i archeolegwyr (many of which...)**  
**a oedd wedi gwladychu / gwnaeth ... wladychu / a wladychwyd (which colonised)**  
**O ystyried faint o ddylanwad roedd yr hen Etrwsgiaid wedi ei chael ar wareiddiadau**

Er bod rhai o'r sgrïptiau yn lân iawn, cafwyd eraill lle roedd nifer o fân wallau cywirdeb. Er bod ambell lithriad yn ddigon dealladwy, yn arbennig o dan amodau arholiad, mae'n hollbwysig darllen y gwaith yn fanwl cyn ei gyflwyno, er mwyn cywiro gwallau fel y rhain:

**yn rai newydd**  
**a wladychodd rhannau helaeth**  
**yr hil ryfedd... hwn**  
**arbennigwyr**  
**Mae'r lechen, sy'n 4 troedfedd o hŷd**  
**bwydydd wedi'i ffrio**  
**ar y lywodraeth**  
**strategaeth... sydd i'w cyhoeddu**  
**safonnau**  
**methu â cofrestru**  
**strategaeth diweddar... a chyhoeddir**

Cafwyd un enghraifft lle roedd gwaith yr ymgeisydd yn lân iawn drwyddo draw, ac eithrio paragraff olaf yr ail ddarn – enghraifft o fethu â rheoli'r amser yn iawn, efallai? Yn aml gwelir ymgeiswyr sydd wedi gwneud yn dda yn y darn cyntaf heb gael cystal hwyl ar yr ail ddarn, sy'n awgrymu eto o bosib nad ydynt wedi cadw llygad digon gofalus ar y cloc. Byddai'n arfer da i ymgeiswyr rannu'r amser yn gwbl gyfartal rhwng y ddau ddarn yn yr arholiad, er mwyn sicrhau nad ydynt yn rhoi eu hunain o dan bwysau ychwanegol diangen pan ddônt at yr ail ddarn.

Wedi dweud hyn, fel y soniwyd eisoes, roedd safon yr ymgeiswyr yn y rownd hon yn ddigon addawol, ac roedd cyffyrddiadau da yng ngwaith pob un ohonynt, e.e.:

***Galwodd y Gymdeithas ar i'r llywodraeth wneud gofynion bwyta'n iach yn orfodol sicrhau bod plant yn cael o leiaf un dogn o lysiau bob dydd ei strategaeth ohiriedig ynghylch gordewdra plant mae'n debygol o gynnwys geiriau nas gwelwyd o'r blaen wareiddiad a ystyried mewn sawl ffordd yn batrwm ar gyfer y diwylliannau...a'i dilynodd Mae'n destun pryder bod cannoedd o ... ysgolion... heb ymrwymo eto i ddarparu prydau ysgol iach i blant***

Wrth longyfarch yr ymgeiswyr llwyddiannus, felly, carwn annog y rhai a fu'n aflwyddiannus i ddal ati i ganolbwyntio ar ddysgu eu crefft a mireinio'u sgiliau. O wneud hynny, rwy'n ffyddiog y bydd nifer ohonynt yn debygol o lwyddo'r tro nesaf.

## **Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg**

Nifer yr ymgeiswyr: 6  
Llwyddo: 4

Braf iawn yw nodi bod dau draean o'r ymgeiswyr yn y rownd hon wedi llwyddo i gyrraedd y safon angenrheidiol i lwyddo ar y lefel sylfaenol, a bod ambell un yn agos iawn at gyflawni rhagoriaeth.

Roedd y darn cyntaf yn sôn am Thomas Jones, cenhadwr a aeth i fryniau Casia, a chan fod disgwyl i'r cefndir fod yn ddieithr i rai, os nad mwyafrif o'r ymgeiswyr, nid oedd disgwyl iddynt wybod mai 'Khasi hills' a 'Khasi people' oedd ffurfiau Saesneg 'bryniau Cassia' a'r 'Casiad'. Wedi dweud hynny, braf oedd gweld ambell un yn nodi y byddai wedi chwilio ar y we i ganfod y termau cywir.

Dyma rai enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus a welwyd yn y ddau ddarn:

*Yn ddiddadl, Thomas Jones oedd un o anturiaethwyr pennaf ein cenedl*  
***Unquestionably, Thomas Jones was one of our nation's foremost adventurers***

*fordaith hir, anhwylyus i Calcutta*  
***a long and arduous voyage to Calcutta***

*Roedd digon o ruddin ynddynt*  
***They had sufficient conviction***

*Llwyddodd Thomas Jones i feistrolï iaith y Casïaid trwy'r glust yn unig*  
***Thomas Jones successfully mastered the Cassian language purely by ear***

*os ydym i fanteisio ar bob cyfle posibl i'w defnyddio*  
***if we are to seize every possible opportunity to use it***

*O ystyried ei hanes*  
***Given its history***

*Bellach enillwyd statws swyddogol i'r iaith, daeth mwy o bobl i ymfalchïo ynndi, a gwelwyd llawer o ennill tir.*  
***The language has now gained official status, is a source of pride to more people and has made great inroads.***  
***By now, the language has gained official status, more people take pride in it, and a great deal of ground has been gained.***

Fodd bynnag, cafwyd hefyd enghreifftiau lle na lwyddwyd i greu cyfieithiad llwyddiannus, weithiau oherwydd diffyg geirfaol:

*y fordaith hir, anhwylyus*  
***the long, uncomfortable sea journey***

*un o anturiaethwyr pennaf ein cenedl*  
***one of the most predominant adventurers of our nation***

*Roedd digon o ruddin ynddynt*  
***There was enough heartwood amongst them***

Cafwyd enghreifftiau eraill o gyfieithu aflwyddiannus lle roedd patrwm y frawddeg wedi mynd yn drech na'r ymgeiswyr, e.e.

***Some are historical: attempts to eradicate the Welsh language and to associate it with failure*** [dim berf, er bod elfennau da yn y frawddeg fel arall]  
***Our challenge, therefore, is to decide if its death would be a loss, and do we want to keep it?***  
***He made an application for their permission to service in India, but it was refused and suggested that he should go to North Africa.***

Cafwyd ambell enghraifft o ansicrwydd wrth ddefnyddio'r collnod i ddynodi'r lluosog, a gwelwyd y ffurfiau anghywir 'Cassian's' a 'Methodist's', ond heblaw am hynny braf yw gallu nodi bod y gwaith a gyflwynwyd yn lân iawn, heb fawr ddim mân wallau cywirdeb.

Wrth longyfarch yr ymgeiswyr llwyddiannus, felly, carwn annog y rhai a fu'n aflwyddiannus y tro hwn i ddal ati, gan fod y nod o fewn eu cyrraedd. Roedd pethau da ym mhob un o'r papurau, a braf iawn oedd gweld hynny.

Wrth gloi fy adroddiad, carwn ddiolch unwaith yn rhagor i'r tîm cyfan am bob cymwynas, ac am hwyluso fy ngwaith yn fawr.

**Fiona Gannon**  
**Mai 2016**